

## **Cyffro mawr wrth i enw'r parc dŵr newydd gael ei ddatgelu**

Mae enw'r parc dŵr blaenllaw newydd sbon sy'n dod i'r Rhyl wedi cael ei ddatgelu wrth y cyhoedd.

Bydd yr atyniad hamdden ac ymwelwyr gwerth £15 miliwn yn cael ei alw yn SC2 ac mae'n ffurfio rhan o ddatblygiad glan y môr y dref.

Bydd y parc dŵr yn agor i'r cyhoedd yng ngwanwyn 2019 a disgwylir iddo ddenu 350,000 o ymwelwyr ychwanegol i'r dref bob blwyddyn. Bydd yn creu 65 o swyddi newydd.

Bydd gan SC2 ofod dŵr 1,200 metr sgwâr, gyda reidiau dŵr y tu mewn a'r tu allan, ffrâm chwarae a sleidiau dŵr i blant, man gweithgareddau TAG Active, ystafelloedd ar gyfer partiön, derbynfa, ardaloedd gwerthu, Pwll Sblasio y tu allan – dau bad sblasio gwlyb, ardaloedd ar gyfer gwelyau haul a therasau â chaffis i ddarparu adloniant chwarae gwlyb.

Bydd yno doiledau, yn ogystal â bar a theras ar gyfer masnachu gyda'r nos.

Lluniwyd y cynlluniau hyn mewn partneriaeth â chwmni Alliance Leisure, sef partner hamdden y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Cabinet Arweiniol Lles ac Annibyniaeth: "Mae cyhoeddi'r enw yn garreg filltir arwyddocaol arall yn y prosiect cyffrous hwn.

"Roeddem am gael enw modern a brand sy'n cyflenwi cyfleusterau hamdden eraill y sir, a brand y gellir ei adnabod yn syth ac yn un y bydd pobl yn ei gofio.

"Mae'r gwaith adeiladu ar amser a bydd preswylwyr ac ymwelwyr ardal y promenâd wedi sylwi bellach ar yr adeiledd newydd sydd wedi ymddangos yno dros yr wythnosau diwethaf. Rydym yn hynod falch o'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ac mae gennym lawer o waith o'n blaenau i gael yr adeilad yn barod i agor y flwyddyn nesaf."

Dywedodd y Cynghorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych: "Mae'r gwaith o ddatblygu glan y môr yn dechrau siapio. Y gwaith ar SC2 yw'r gwaith diweddaraf mewn cyfres o brosiectau datblygu mawr. Mae'r gwaith o ailwampio Theatr y Pafiliwn ac agoriad bwyty 1891 eisoes wedi digwydd ac mae wedi gosod safon datblygu uchel. Mae gwesty Premier Inn a bwyty newydd sbon bellach wedi agor ac mae'r gwaith o ailwampio'r Tŵr Awyr hefyd wedi'i wneud.

"Mae hon yn bennod gyffrous i'r dref ac edrychwn ymlaen at weld prosiectau eraill yn dwyn ffrwyth dros y misoedd nesaf".

Dywedodd Maer y Rhyl, y Cynghorydd Alan James wrth groesawu cyhoeddi'r enw, gan ychwanegu: "Mae ardal glan mor y dref yn mynd drwy gyfnod o newid sylweddol ac mae maint y buddsoddiad y neid tref i'w ganmol.

"Mae pob diwrnod yn gweld newid a gwelliant. Mae'r gwaith adfywio yn digwydd ym mhobman ar raddfa na welwyd o'r blaen – newidiadau fydd yn creu swyddi ac yn denu ymwelwyr, fydd, yn ei dro, yn cryfhau economi'r dref. Mae SC2 yn ran arloesol a chyffoes o ail-ddatblygiad y Rhyl ac mae'r cyngor tref yn falch o allu cefnogi'r prosiect hynod werthfawr hwn".

Mae SC2 yn cael ei ariannu gan Gyngor Sir Ddinbych, gyda chyfraniadau gan Gyngor Tref y Rhyl a Llywodraeth Cymru.

Nodyn i Olygyddion: I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cyfathrebu ar 01824 706222.